WG935.S. 225

# GALAREB

AR OL Y DIWEDDAR

# Mr. Robert Williams,

*MINERAL AGENT, TREDEGAR,*

A FU FARW MEDI 10, 1866,

Yn 58 mlwydd oed.

---

Wedi marw ! marw eisoes !
Tybed mai gwirionedd yw !
Ddoe yn foreu hwyliau'i gamrau,
Tu a sanctaidd dŷ ei Dduw ;
Yn yr ysgol hefyd gwelwyd—
Ef yn brysur y prydnawn,
Neithiwr yn yr oedfa'n gynar.
Ymddangosai'n ddedwydd iawn.

Wedi hyny yn y " *Seiat*"
Codai'i lef am ras didrai,
" Aeth yn nes i'r nefoedd neithiwr
Nag erioed, " fel d'wedai rhai.
Wedi hyny'n lle myn'd adreu,
I'w aneddle dawel glyd,
Aeth i " Saron " gyda'i frodyr,
I anfon cais at Iôr y byd.

Cais difrifol am ymwared,
Rhag y pla, erchyllaf ryw,
Sydd yn tramwy trwy y gwledydd,
Sarnfa wna o ddynolryw !
Ar y diwedd galwai Williams
Am gael cwrdd drachefn cyn hir,
I ail geisio nawdd y nefoedd,
Rhag y pla sydd yn ein tir.

Y205 317676

Galwodd arnaf fi i siarad,
  Ufuddhau i'w gais a wnaed,
Wedi i mi'n ebrwydd orphen,
  Cododd yntau ar ei draed,
Nid i siarad fel disgwylid,—
  Cododd fynu'i syrthio'i lawr!
Methodd godi heb gynorthwy,
  T'rawyd pawb a syndod mawr.

Mawr fel y gobeithiai'r dyrfa,
  Mae cael llewyg yr oedd ef,
Ac y deuai'n fuan eto,
  Ato'i hun trwy ffafr y Nef.
Methai gerdded, methai sefyll,
  Methai godi ar ei draed!
Yna 'maflwyd ynddo'n ebrwydd,
  A'i ddwyn adreu'n dyner wnaed.

Er holl ymdrech y meddygon,
  Methent rwystro brenin braw,
Gweithiai ef, a gweithient hwythau;
  Angau gonc'rodd maes o law.
Pan oedd gwawr y dydd yn tori,
  Nos marwolaeth y pryd hyn—
Daenai dros ein cyfaill Williams;
  Lawr a'r *blinds*! A phawb yn syn.

Wedi bod am lawer blwyddyn,
  Mewn peryglon o bob rhyw;
Dan y ddaear, yn y pitiau,
  'N ymyl angau, eto'n fyw.
Ond yn nghanol pob diogelwch
  Y derbyniodd farwol glwy';
Gwael yw amcan y bywiolion,
  Beth a fydd eu diwedd hwy!

Beth all fod yn ddoethach ini,
  Tra bôm yma nos a dydd,
Nag ymddiried yn yr Arglwydd,
  Yn ei law pob gallu sydd;

Tra b'o 'Fe yn ewyllysio,
  Byw, er gwaethaf pob peth gawn,
Ond, pan alwo Ef am danom,
  Myn'd a raid yn ebrwydd iawn.

Er mor chwith oedd marw'n sydyn,
  Chwithach fuasai myn'd o'r byd—
O'r tafarndy, neu o gwmni—
  'R annuwiolion uchel fryd.
Yn y fan sydd ddymunolaf,
  O bob lle o dan y nef;
Yn mhlith teulu'r mawl a'r weddi,
  Pan ddaeth Mab y dyn 'r oedd ef.

Er mor chwith yw marw'n sydyn,
  Llawer chwithach ydyw'n wir,
Wedi oedi troi at Iesu,
  Oedi ceisio crefydd bur;
Oedi myn'd i Arch y bywyd,
  Nes i'r nefoedd droi yn ddu,
Y drws yn cau, y dyliw'n rhuthro,
  Yntau'r oedwr yn y lli!

'Roedd i Williams ei golliadau,
  Ond nid *oedi* oedd ei fai,
Pe oedasai, mor ofnadwy,
  Fuasai ddiwedd yn ddiau!
Sut gallasai geisio'r Arglwydd,
  Yn fath amgylchiadau trist,
Sut gallasai drefnu'i fater,
  Cyn wynebu brawdle Crist.

Gofal am y corph llesmeiriol,
  Oedd yn ddigon y pryd hyn,
"*Dwr*," a "*Doctor*," "*Anne*," ei briod,
  Dyna'i olaf eiriau syn!
Wedi traethu mor ardderchog,
  Mewn gwahanol gyrddau mawr,
Er ei ddawn i siarad llawer,
  Dim ond *tri* o eiriau'n awr.

Nid oedd Williams heb ei feiau,
  Ond nid oedwr oedd efe,
Bu flynyddau gyda'r achos
  Yn ddefnyddiol yn ei le.
Gofal mawr oedd ganddo beunydd,
  Am allanol bethau'r tŷ,
Talu'r ddyled, cynal moddion,
  A chael pawb at Iesu cu.

Pleidiodd Ddirwest am flynyddau,
  Yr Alcohôl oedd dan ei wg,
Selog a thanbeidiol ydoedd,
  Pan ddynoethai'r fasnach ddrwg.
Da pe byddai i flaenoriaid
  Y gweithfaoedd, a'r holl saint,
Ddilyn siampl mor odidog,
  Mawr ac uchel fyddai'u braint.

Bendith ar y fath amgylchiad,
  I'r holl deulu sydd mor drist;
Boed i Eglwys "Ebenezer"
  Fendith oreu Iesu Grist.
Iôr y nef, fendithio'r rhybudd
  Yma ini oll o'r bron;
Pwy a wyr na elwir ninau,
  Mor ddisymwth ger ei fron.

Ond cael Iesu mawr yn briod,
  Sail ein gobaith ar yr Iawn;
Titl clir i'r Ganaan nefol
  Sydd o bob daioni'n llawn,
Lle mae eisoes ein hanwyliaid,
  Lle mae Crist—pwy fel Efe;
Pwy all fyn'd o'r fath anialwch
  Yn rhy fuan i'r fath le?

IOAN HWYLGAR.

*Zoar Tredegar.*

*J. Thomas, Argraffydd, Tredegar.*